Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar gyfer

# Schoolhouse Day Nursery

**Ysbyty Tywysoges Cymru**
**Heol Coety**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF31 1RQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Schoolhouse Day Nursery

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Schoolhouse Day Nursery |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | Amanda Bennett, Rachel Burley a Sarah Morales. |
| Person â chyfrifoldeb | Cathryn Stinton |
| Nifer y lleoedd | 50 |
| Ystod oedran y plant | Oedran geni hyd at 12 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 13 |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 2 |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | Mae'r lleoliad ar agor bum diwrnod yr wythnos, rhwng 6.30am a 7.00pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 8 Rhagfyr 2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Tachwedd 2017 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 05/11/2024 |

Lleoliad cyfrwng Saesneg yw Meithrinfa Ddydd Schoolhouse sy'n cwrdd ar safle Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r lleoliad yn rhan o gasgliad ehangach o leoliadau gofal dydd sy'n rhan o endid cyfreithiol Schoolhouse Daycare Limited.

Mae rhai plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad ar hyn o bryd.

Mae rhai o'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn siarad Saesneg fel ail iaith. Cymraeg, Arabeg, Pwyleg a Lithwaneg yw mamiaith y plant hyn.

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Achosion o ddiffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Datblygu effeithiolrwydd rhyngweithio, arsylwadau a chynllunio er mwyn cefnogi sgiliau meddwl yn feirniadol a datrys problemau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant:  Rhagorol**

Mae bron pob un o'r plant yn cael cyfleoedd rhagorol i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ynglŷn â sut i dreulio eu hamser yn y feithrinfa. Mae plant o bob oedran yn dewis ble yr hoffent chwarae. Mae bron pob un o'r plant yn mynegi eu hunain yn hyderus gan eu bod yn gwybod y bydd y staff yn gwrando ar eu dymuniadau, eu hanghenion a'u hwyliau. Er enghraifft, mae'r plant iau yn defnyddio ystumiau corfforol i nodi eu bod am gael cysur, ac mae'r ymarferwyr yn ymateb iddynt yn gynnes.

Mae bron pob un o'r plant yn hapus ac yn hamddenol iawn, ac maent yn mwynhau eu hamser yn y feithrinfa. Maent yn gyfforddus iawn yn eu hamgylchedd ac yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol ac iach â'u ffrindiau a'r ymarferwyr ac maent yn mynd atynt yn aml i gael cymorth. Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau treulio amser yn chwarae gyda'r ymarferwyr, ochr yn ochr â'u ffrindiau. Er enghraifft, mae'r plant hŷn yn chwarae yn y gegin fwd y tu allan ac yn gofyn i'r ymarferwyr eu helpu i grafu'r hadau o'r bwmpen i'w hychwanegu at eu cawl mwd. Maent yn dangos boddhad llwyr wrth gymysgu'r holl gynwysyddion gyda chwisg. Mae gan bron pob un o'r plant ymdeimlad cadarn iawn o berthyn. Mae'r ymarferwyr yn cyfarch y plant yn gynnes, ac maent yn eu cefnogi mewn modd sensitif iawn i wahanu oddi wrth eu rhieni, gan sicrhau eu bod yn teimlo'n hapus i ddechrau eu diwrnod yn y feithrinfa. Mae'r plant hŷn yn cyrraedd y feithrinfa ac yn gwybod yn union ble y dylent roi eu bagiau a'u heitemau personol. Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda iawn ac yn gwrtais iawn. Mae'r plant yn dweud 'os gwelwch chi'n dda' a 'diolch’ wrth ei gilydd yn ddigymell. Maent yn mwynhau cael canmoliaeth gan yr ymarferwyr am foesau da ac am fod yn garedig ac yn barod eu cymwynas.

Mae bron pob un o'r plant yn cael cyfleoedd rhagorol i ddatblygu, dysgu a defnyddio eu dychymyg. Mae'r plant yn ymgolli'n llwyr yn eu chwarae. Maent yn cael ymdeimlad o gyffro ac yn cael eu grymuso wrth archwilio eu diddordebau yn rhydd. Er enghraifft, mae'r plant yn defnyddio tyllwr yn fedrus, gydag arweiniad gan yr ymarferwyr, i wneud tyllau mewn dail. Maent yn gosod llinyn drwy'r tyllau i greu baneri. Mae'r plant yn dangos diddordeb gwirioneddol ac yn cefnogi ei gilydd yn eu chwarae. Er enghraifft, maent yn dringo teiar tractor yn fedrus drwy gerdded i fyny'r ramp a'r ysgol. Maent yn gwylio ei gilydd ac yn gwenu wrth iddynt ddringo i ben y teiar gyda'i gilydd, gan rannu'r ymdeimlad o gyflawniad. Mae'r plant iau yn cyffroi'n llwyr ac yn gweiddi wrth iddynt weld lluniau o'u ffrindiau yn ystod gweithgaredd amser cylch.

Mae bron pob un o'r plant yn dechrau meithrin amrywiaeth eang o sgiliau wrth iddynt chwarae a dilyn arferion. Maent yn cael budd o gynlluniau a gaiff eu hystyried yn ofalus, sy'n darparu llawer o gyfleoedd iddynt fod yn annibynnol, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain. Mae'r plant yn golchi eu dwylo eu hunain, yn defnyddio'r toiled yn annibynnol ac yn tacluso ar ôl bod yn chwarae. Yn ystod amser bwyd, mae'r plant hŷn yn arllwys eu diodydd eu hunain, yn gweini eu hunain yn hyderus o'r bowlenni a gaiff eu gosod yng nghanol y bwrdd gan ddefnyddio llwyau gweini ac yn crafu unrhyw fwyd nad ydynt wedi'i fwyta oddi ar eu platiau ar ôl gorffen bwyta. Caiff y plant iau gymorth i fwydo eu hunain ac maent yn defnyddio cwpanau heb gaeadau pan fo'n briodol. Mae hyn yn hyrwyddo sgiliau hunangymorth y plant ac yn gwella eu hunan-barch.

## Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm dros hyn yw nad oedd digon o blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg a gyllidir yn rhywle arall yn bresennol ar adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb i blant unigol gael eu hadnabod.

## Gofal a datblygiad:  Da

Mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach yn llwyddiannus. Mae gan y feithrinfa amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n eu cefnogi'n effeithiol wrth iddynt ymgymryd â'u rolau. Mae'r ymarferwyr yn cwblhau hyfforddiant diogelu cynhwysfawr, gan gynnwys hyfforddiant rheolaidd a gaiff ei drefnu gan y feithrinfa. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ddiogelu a'r gweithdrefnau i'w dilyn. Maent yn ymwybodol o'u dyletswydd i roi gwybod am unrhyw bryderon ac yn hyderus o ran y camau i'w cymryd os byddai angen. Mae'r ymarferwyr yn dilyn arferion hylendid da ac yn eu hyrwyddo. Er enghraifft, caiff y byrddau eu glanhau cyn amser bwyd ac mae'r ymarferwyr yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) yn gyson wrth gyflawni tasgau allweddol, fel brwsio dannedd a newid cewynnau'r plant. Mae'r plant o bob oedran yn golchi eu dwylo cyn amser bwyd ac ar ôl defnyddio'r toiled, sy'n ymgorffori arferion hylendid da. Caiff anghenion iechyd y plant eu hystyried yn llawn. Mae'r ymarferwyr yn cofnodi, cynnal ac adolygu amrywiaeth o gofnodion yn effeithiol, gan gynnwys y cofnodlyfrau damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth.

Mae'r feithrinfa yn cynnig amrywiaeth o brydau bwyd a byrbrydau iach a chytbwys a gaiff eu paratoi'n ffres ar y safle gan gogydd y feithrinfa. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr amseroedd bwyd yn brofiadau hamddenol, cymdeithasol ac yn llawn mwynhad lle caiff y plant eu hannog i siarad am eu diwrnod. Mae gweithdrefnau cryf

ar waith wrth ddelio â phlant ag alergeddau, anoddefiadau a dewisiadau deietegol. Mae'r ymarferwyr yn rhoi'r gweithdrefnau hyn ar waith yn gyson. Caiff y plant gynnig dŵr yn ystod amser bwyd ac mae dŵr yfed ar gael i'r plant hŷn yn yr ardaloedd chwarae y gallant gael gafael arno yn annibynnol. Mae'r ymarferwyr yn hybu datblygiad corfforol y plant drwy sicrhau eu bod yn defnyddio'r amgylchedd chwarae awyr agored yn ddyddiol.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn rhyngweithio'n dda iawn â'r plant ac yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â nhw. Maent yn gynnes, yn garedig ac yn amyneddgar ac yn rhoi sicrwydd a chysur i'r plant pan fo angen. Mae'r ymarferwyr yn parchu cysylltiadau emosiynol y plant tuag at eu heiddo personol, fel teganau meddal arbennig o gartref. Mae'r ymarferwyr yn gweld sut mae'r eitemau hyn yn rhoi cysur i'r plant ac yn eu helpu i fod yn hyderus wrth fynychu'r feithrinfa. Maent yn ymwybodol o anghenion y plant ac yn deall pan fyddant wedi cynhyrfu ac yn nodi ffyrdd o'u helpu. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn tynnu sylw'r plant iau yn fedrus ac yn eu diddanu os byddant yn digalonni, sy'n golygu eu bod yn tawelu'n gyflym ac yn dychwelyd i'r hyn yr oeddent yn ei wneud yn ddidrafferth.

Mae'r ymarferwyr yn deall y strategaethau rheoli ymddygiad yn gadarnhaol ac yn eu rhoi ar waith yn unol â pholisi manwl y feithrinfa. Maent yn defnyddio tôn llais cynnes ac ysgafn iawn wrth ganmol y plant ac yn atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol, ochr yn ochr â defnyddio tôn llais cadarn pan fo angen. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn atgoffa'r plant yn garedig i gerdded os byddant yn rhedeg dan do. Mae'r ymarferwyr yn rhoi pum munud o rybudd i'r plant ar lafar wrth drosglwyddo o un dasg i'r llall, er enghraifft, wrth i chwarae rhydd ddod i ben ac wrth baratoi ar gyfer amser cinio.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn. Maent yn cynnal arsylwadau rheolaidd ar y plant er mwyn eu galluogi i olrhain eu cynnydd a nodi eu camau nesaf. Maent yn dathlu llwyddiannau'r plant, er enghraifft, pan fyddant yn llwyddo i olchi eu dwylo'n annibynnol am y tro cyntaf. Mae'r ymarferwyr yn cefnogi'r plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Maent yn gofyn am gyngor ac arweiniad buddiol gan weithwyr proffesiynol ac yn gosod ac yn adolygu targedau unigol yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu. Mae'r ymarferwyr yn dechrau defnyddio'r Gymraeg gyda phlant o bob oed. Maent yn cyflwyno caneuon a Chymraeg achlysurol sylfaenol yn ystod gweithgareddau ac wrth ymgymryd â'r drefn o ddydd i ddydd gyda'r plant iau.

**Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth o brofiadau gwerthfawr neu ystyrlon. Mae gan y rhan fwyaf o'r ymarferwyr ddealltwriaeth dda o sut mae'r plant yn dysgu drwy chwarae. Maent yn defnyddio hyn i ddarparu amrywiaeth ragorol o adnoddau mewn amgylchedd cynnes a deniadol, sy'n galluogi'r plant i wneud dewisiadau a dysgu'n dda drwy chwarae.

Mae'r ymarferwyr yn cefnogi'r plant i feithrin eu sgiliau gwneud marciau ac ysgrifennu cynnar yn effeithiol. Mae'r plant yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau gwneud marciau ar amrywiaeth o arwynebau dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, maent yn defnyddio sialc i greu lluniau o dân gwyllt a phensiliau i greu lluniau arsylwadol o bwmpenni. Mae'r ymarferwyr yn ymateb yn dda i ddiddordebau'r plant

mewn perthynas â darllen drwy rannu llyfrau a straeon yn ystod amser grŵp ac yn ddigymell y tu mewn a'r tu allan i'r lleoliad, gan alluogi'r plant i feithrin cariad tuag at lyfrau. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau effeithiol i'r plant feithrin eu sgiliau cyfathrebu drwy ddefnyddio adnoddau. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn gallu cael gafael ar gamerâu digidol er mwyn tynnu lluniau o'u ffrindiau a thrafod y lluniau y maent wedi'u tynnu o'i gilydd.

Mae'r ymarferwyr yn meithrin sgiliau cyfri'r plant drwy ddefnyddio eu bysedd i gyfrif i ddeg. Maent yn darparu byrddau gwyn wedi'u goleuo er mwyn i'r plant ddysgu sut i adnabod rhifau a'u copïo'n llwyddiannus ac yn defnyddio cerbydau a gaiff eu rheoli gan declyn i drafod iaith leoliadol â'r plant. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau penagored ac adnoddau rhifedd ar gael yn ardal y ddarpariaeth. Maent yn sicrhau bod y plant yn meithrin eu sgiliau mathemategol yn rheolaidd, ond mae'r cyfleoedd i'r plant feithrin eu sgiliau rhifedd yn annibynnol drwy chwarae yn fwy cyfyngedig.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd effeithiol i'r plant feithrin eu sgiliau corfforol yn llwyddiannus. Maent yn annog y plant i fwynhau yn yr awyr agored drwy roi profiadau diddorol iddynt, gan gynnwys gweithgaredd chwarae rôl coginio yn y gegin fwd, llenwi poteli chwistrelli a chymryd rhan mewn gemau parasiwt. Mae'r ymarferwyr yn darparu digon o gyfleoedd i'r plant ddefnyddio cyfarpar dringo mawr, fel fframiau dringo, cyrsiau rhwystrau, beiciau cydbwyso a sgwteri, er mwyn eu cefnogi i symud, dringo a chydbwyso â hyder cynyddol.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu dull ymatebol o gynllunio drwy ddefnyddio arsylwadau o'r plant. Er enghraifft, maent yn cefnogi'r plant i ddysgu am gerbydau drwy edrych ar luniau a chwarae dychmygol ar ôl iddynt gymryd diddordeb mewn fan waith wrth iddynt fynd am dro yn yr ardal leol. Arsylwodd bron pob un o'r ymarferwyr ar y plant yn addas yn ystod y sesiwn. Defnyddir y wybodaeth hon i lunio asesiadau pan fydd y plant yn cyrraedd y lleoliad am y tro cyntaf ac i nodi eu diddordebau. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn dylanwadu ar y broses o gynllunio ar gyfer profiadau ymatebol a chwareus sy'n cefnogi cynnydd y plant ac sy'n meithrin eu sgiliau meddwl yn feirniadol a datrys problemau yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i gefnogi datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant. Er enghraifft, mae'r plant yn dysgu am deuluoedd a'u diwylliannau drwy ddathlu gŵyl Diwali, rhannu a thrafod llyfrau, a defnyddio adnoddau amrywiol gan gynnwys jig-sos, adnoddau byd bach, doliau amlddiwylliannol ac adnoddau go iawn wrth chwarae rôl. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddysgu am ddiwylliant Cymru. Er enghraifft, maent yn tywys y plant ar deithiau cerdded tymhorol yn yr ardal leol ac yn cymryd rhan mewn dathliadau Dydd Gŵyl Dewi sy'n cefnogi eu dealltwriaeth o'u hardal leol ac yn datblygu eu hymdeimlad o berthyn. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn gweithio'n galed i ddatblygu'r Gymraeg yn ystod sesiynau. Maent yn defnyddio'r Gymraeg i ganmol y plant yn ystod amseroedd grŵp ac mae'r plant yn ymuno â'r sesiynau drwy ganu caneuon syml. Fodd bynnag, prin y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio fel rhan o'r drefn o ddydd i ddydd ac nid yw'n cael ei datblygu'n effeithiol. Mae hyn wedi cael ei gynnwys fel blaenoriaeth yng nghynllun gweithredu'r lleoliad.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn fodelau rôl da mewn perthynas ag iaith wrth ryngweithio â'r plant. Maent yn gwrando'n ofalus ac yn siarad yn glir â'r plant gan

ddefnyddio goslef ac iaith y corff yn effeithiol. Mae'r rhyngweithio hynod gadarnhaol yn meithrin llesiant a dyfalbarhad y plant yn dda.

**Yr Amgylchedd:  Da**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau effeithiol i gynnal amgylchedd diogel a glân. Caiff ymwelwyr, y staff a'r plant eu cofnodi'n gywir wrth gyrraedd a gadael yr adeilad. Caiff ymarferion tân rheolaidd eu cynnal ar adegau gwahanol er mwyn cynnwys pob un o'r plant. Caiff gwiriadau cynnal a chadw a diogelwch eu cwblhau'n brydlon. Mae'r arweinwyr wedi datblygu amrywiaeth dda o asesiadau risg a rhestrau gwirio ategol er mwyn cynnal amgylchedd diogel.

Mae'r amgylchedd yn cynnig cyfleusterau buddiol er mwyn gofalu am y plant. Mae pob un o'r ystafelloedd chwarae yn cynnwys dodrefn o ansawdd uchel ac o faint addas ar gyfer oedrannau amrywiol y plant. Mae cynllun yr ystafelloedd chwarae yn cefnogi'r plant i symud o amgylch yn rhydd. Gall y plant hŷn fynd i'r ystafell ymolchi, sydd wedi'i lleoli yn eu hystafell chwarae, ar eu pen eu hunain. Mae cyfleusterau newid cewynnau ar gael ym mhob ystafell ac maent yn cynnwys digon o gyfarpar. Gall y plant ymlacio yn ystod y dydd yn eu hystafelloedd chwarae. Caiff matiau cysgu a dillad gwely unigol eu darparu i blant o bob oedran ac mae'r ardal yn hamddenol gan fod y goleuadau yn cael eu diffodd a chaiff cerddoriaeth ysgafn ei chwarae. Mae'r staff yn monitro'r babanod a'r plant sy'n cysgu yn ofalus. Mae'r arweinwyr wedi rhoi amrywiaeth o addasiadau ar waith er mwyn gwella'r cyfleusterau ar gyfer y plant. Er enghraifft, mae canopi mawr wedi cael ei osod yn ardal awyr agored y plant hŷn er mwyn sicrhau y gallant ddefnyddio'r ardal ym mhob tywydd ac mae'r staff hefyd wedi addasu toiledau'r plant er mwyn eu gwella ar gyfer plant o bob oedran sy'n mynychu'r lleoliad.

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau a theganau go iawn sy'n ddiddorol ac o ansawdd da, sydd hefyd yn hyrwyddo chwilfrydedd. Maent yn cynnig amrywiaeth eang o brofiadau chwarae sy'n dathlu diwylliannau ac ieithoedd amrywiol, gan gynnwys y Gymraeg. Defnyddir eitemau go iawn, eitemau naturiol ac eitemau wedi'u hailgylchu i wella pob rhan o'r amgylchedd ac i gefnogi plant o bob oedran, gan wella eu profiadau chwarae. Er enghraifft, mae'r dillad gwisgo i fyny yn cynnwys eitemau fel bagiau, esgidiau a dillad gwisgo i fyny diwylliannol fel ffrogiau traddodiadol Tsieineaidd. Caiff profiadau go iawn eu creu drwy ddefnyddio adnoddau fel potiau a sosbenni dur gloyw a sychwyr gwallt, ochr yn ochr â phecynnau bwyd wedi'u hailgylchu, fel potiau iogwrt a blychau bagiau te gwag, yn yr ardaloedd chwarae rôl. Gall y plant gael gafael ar yr arddangosfa o gregyn, dail, moch coed, hadau pwmpenni a darnau o goed amrywiol yn rhwydd a chânt eu cynnwys mewn gweithgareddau er mwyn hyrwyddo creadigrwydd a chwilfrydedd. Caiff adnoddau eu trefnu a'u harddangos yn ddeniadol ar silffoedd lefel isel er mwyn sicrhau y gall y plant gael gafael arnynt yn hawdd a'u bod yn eu denu i'w defnyddio.

Gellir cyrraedd yr ardal chwarae awyr agored yn uniongyrchol o bob ystafell chwarae ac mae o faint addas. Mae gan y plant iau ardal chwarae ar wahân, sy'n eu galluogi i symud yn rhydd ac yn ddiogel yn yr ardal. Mae ffens lefel isel wedi'i osod o amgylch ardaloedd allweddol yn ardal chwarae'r plant hŷn sy'n cynnig amrywiaeth o brofiadau. Er enghraifft, mae cegin fwd ac ardal gwneud marciau helaeth sy'n cefnogi creadigrwydd a chwarae dychmygol. Mae'r fframiau dringo a'r llithren lefel isel yn rhoi heriau corfforol i'r plant er mwyn iddynt gymryd risgiau priodol wrth chwarae. Mae

ardal sy'n cynnwys matiau meddal a marciau ffordd yn galluogi'r plant i symud o gwmpas yr ardal yn rhydd ac yn ddiogel ar y teganau reidio amrywiol sydd ar gael.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Mae arweinwyr y lleoliad yn blaenoriaethu llesiant pob un o'r ymarferwyr, y plant a'u teuluoedd. Mae'r cydberthynas cryf a chefnogol rhwng yr arweinwyr a'r ymarferwyr wedi creu tîm sy'n gweithio gyda'i gilydd yn frwdfrydig ac yn gydweithredol tuag at weledigaeth a rennir sy'n sicrhau bod y plant a'u teuluoedd wrth wraidd y lleoliad. Mae awyrgylch llawn hwyl a chynnes yn y gwasanaeth.

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n dda gydag athro ymgynghorol yr awdurdod lleol i nodi cryfderau a'r meysydd i'w gwella'n gywir er mwyn llywio'r hunanwerthusiad a'r cynllun gweithredu'n effeithiol. Fodd bynnag, megis dechrau y mae'r gwaith hwn o ddatblygu, ac nid yw'r gwerthusiadau o'r cynlluniau gwella yn dangos yr effaith ar ddysgu a datblygiad y plant eto. Mae'r datganiad o ddiben yn glir ac yn darparu darlun cywir o'r lleoliad, gan alluogi'r rhieni i wneud penderfyniadau hyddysg am addasrwydd y lleoliad ar gyfer eu plentyn.

Caiff y staff gyfleoedd defnyddiol i ddatblygu'n broffesiynol. Mae'r arweinwyr yn defnyddio prosesau arfarnu a goruchwylio cadarn er mwyn nodi meysydd i'w datblygu a'r blaenoriaethau datblygu proffesiynol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn cwblhau cyrsiau datblygiad proffesiynol ar sgiliau digidol a darpariaeth ddatblygedig ac yn defnyddio eu sgiliau digidol yn dda i gefnogi dysgu'r plant o bob rhan o'r cwricwlwm. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn meddu ar y cymwysterau gofal plant gofynnol neu'n gweithio tuag atynt ar hyn o bryd.

Mae'r ymarferwyr yn cyfathrebu'n ddyddiol â theuluoedd y plant pan fyddant yn eu gollwng ac yn eu casglu. Mae gan yr ymarferwyr gydberthnasau cryf â'r teuluoedd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ddysgu a datblygiad y plant. Mae'r lleoliad yn cynnal cyfarfodydd ystyrlon â'r rhieni ac yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol â nhw drwy'r flwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am lesiant, dysgu a datblygiad eu plant. Mae digwyddiadau partneriaeth â'r rhieni, gan gynnwys diwrnod crempog a diwrnod crochenwaith, yn helpu i greu ethos croesawgar a chydberthnasau effeithiol rhwng teuluoedd yn y lleoliad.

Mae'r arweinwyr wedi rhoi trefniadau trosglwyddo da ar waith. Maent yn rhannu gwybodaeth bwysig a defnyddiol ag athro newydd y plentyn. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn symud ymlaen i'r cam nesaf ar eu taith addysg yn ddidrafferth. At hynny, mae'r arweinwyr wedi meithrin partneriaethau buddiol â rhanddeiliaid ac maent yn defnyddio cyngor ac arweiniad gan bartneriaid, gan gynnwys athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r gweithwyr iechyd proffesiynol, mewn modd adeiladol. Er enghraifft, mae'r athro ymgynghorol yn eu helpu i wella'r amgylchedd dysgu.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac ymarfer parhaus cryf iawn |
| **Da** | Llawer o gryfderau, heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae'r cryfderau yn gwrthbwyso'r gwendidau ond mae angen gwneud gwelliannau |
| **Gwael** | Mae gwendidau pwysig yn gwrthbwyso'r cryfderau ac mae angen gwneud gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (o'r Saesneg i'r Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 10/01/2025